

**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**  
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

[FEL Y'I PASIWYD]

## CYNNWYS

### *Cyflwyniad*

1 Trosolwg

*Atebolrwydd am dalu am wasanaethau GIG*

2 Atebolrwydd am dalu ffioedd

3 Ystyr y prif dermau

4 Taliadau a eithrir

### *Tystysgrifau am ffioedd*

5 Ceisiadau am dystysgrifau etc

6 Yr wybodaeth a geir mewn tystysgrifau

### *Talu ffioedd*

7 Y cyfnod amser ar gyfer talu ffioedd

8 Adennill ffioedd

### *Adolygiadau ac apelau*

9 Adolygu tystysgrifau

10 Apelau yn erbyn tystysgrifau a phenderfyniadau hawllldio

11 Apelau i dribiwnlys

### *Amrywiol*

12 Darparu gwybodaeth

13 Rheoliadau sy'n llywodraethu cyfandaliadau, taliadau cyfnodol etc

14 Atebolrwydd yswirwyr

15 Defnyddio symiau a ad-delir

### *Amrywiol a chyffredinol*

16 Cymhwyso i'r Goron

17 Gorchmynion a rheoliadau

18 Dehongli

19 Cychwyn

20 Enw byr

Atodlen – Taliadau a eithrir



# Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

[FEL Y'I PASIWYD]

Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynghylch ac mewn cysylltiad ag adennill y gost gan Weinidogion Cymru o ddarparu gwasanaethau o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i bersonau sy'n dioddef gan glefydau sy'n ymwneud ag asbestos.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:-**

## *Cyflwyniad*

### 1 Trosolwg

Mae'r Ddeddf hon –

- yn gosod atebolrwydd ar bersonau y mae taliadau igolledu'n cael eu gwneud ganddynt neu ar eu rhan i ddiodefwyr, neu mewn cysylltiad â diodefwyr, clefydau sy'n ymwneud ag asbestos, i dalu ffioedd mewn cysylltiad â gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a ddarperir i'r diodefwyr o ganlyniad i'r clefydau;
- yn gwneud darpariaeth ar gyfer ardystio swm y ffioedd sydd i'w talu, ar gyfer talu'r ffioedd, ar gyfer adolygiadau ac apelau ac ynghylch gwybodaeth;
- yn estyn sicrwydd yswiriant personau sy'n atebol i'w hatebolrwydd am dalu'r ffioedd.

*Atebolrwydd am dalu am wasanaethau GIG*

### 2 Atebolrwydd am dalu ffioedd

- Pan fo taliad digolledu'n cael ei wneud i berson, neu mewn cysylltiad â pherson (y "diodefwr") o ganlyniad i unrhyw glefyd y mae wedi ei ddiodefwr sy'n ymwneud ag asbestos, mae'r person sydd, neu yr honnir ei fod, yn atebol i unrhyw raddau mewn cysylltiad â'r clefyd sy'n ymwneud ag asbestos ac y mae'r taliad digolledu'n cael ei wneud ganddo neu ar ei ran yn atebol am ad-dalu Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau perthnasol gan GIG Cymru a ddarperir i'r diodefwr o ganlyniad i'r clefyd sy'n ymwneud ag asbestos.
- Y swm y mae'r person yn atebol am ei ad-dalu yw swm y ffioedd priodol.

### 3 Ystyr y prif dermau

- Yn y Ddeddf hon ystyr "taliad digolledu", mewn perthynas â chlefyd sy'n ymwneud ag asbestos, yw taliad a wneir (ar ôl i'r adran hon ddod i rym) gan neu ar ran person sydd, neu yr honnir ei fod, yn atebol i unrhyw raddau mewn cysylltiad â'r clefyd sy'n ymwneud ag asbestos, a hwnnw'n daliad nad yw'n daliad a eithrir.

- (2) Caiff taliad fod yn daliad digolledu –
  - (a) p'un a yw'n cael ei wneud mewn arian neu ar ffurf gwerth arian,
  - (b) p'un a yw'n cael ei wneud gan dderbyn atebolrwydd ai peidio,
  - (c) p'un a yw'n cael ei wneud yn wirfoddol, yn unol â gorchymyn llys neu gytundeb, neu fel arall,
  - (d) p'un a yw'n cael ei wneud yn y Deyrnas Unedig neu'n rhywle arall, ac
  - (e) p'un a oedd hawliad wedi ei wneud amdano cyn neu ar ôl i'r adran hon ddod i rym.
- (3) Yn y Ddeddf hon ystyr "clefyd sy'n ymwneud ag asbestos" yw –
  - (a) asbestosis (creithio anfalaen ar feinwe'r ysgyfaint),
  - (b) mesothelioma (ffurf ar ganser sy'n effeithio'n bennaf ar leinin yr ysgyfaint),
  - (c) canser yr ysgyfaint sy'n ymwneud ag asbestos, neu
  - (d) tewhau plewrol (ffurf anfalaen ar glefyd plewrol sy'n ymwneud ag asbestos),

(p'un a yw'n cael ei achosi neu ei ddarganfod cyn neu ar ôl i'r adran hon ddod i rym) ac mae'n cynnwys unrhyw effeithiau seicolegol sydd gan unrhyw un neu rai o'r afiechydon hynny.
- (4) Yn y Ddeddf hon ystyr "ffioedd priodol" yw'r swm neu'r symiau a bennir mewn tystysgrif a ddyroddir, mewn cysylltiad â'r dioddefwr, i'r person sy'n gwneud y taliad digolledu a honno'n dystysgrif sydd mewn grym.
- (5) Yn y Ddeddf hon ystyr "gwasanaethau perthnasol GIG Cymru" yw triniaeth neu wasanaethau eraill i'r graddau y maent yn cael eu darparu, eu sicrhau, eu comisiynu neu eu cyllido o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") ar unrhyw adeg ar ôl i'r adran hon ddod i rym, a'r rheini'n wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau a eithrir.
- (6) Yn is-adran (5) ystyr "gwasanaethau a eithrir" yw –
  - (a) gwasanaethau a ddarperir yn rhinwedd Rhan 4, 5 neu 6 o Ddeddf 2006 (gwasanaethau meddygol sylfaenol, gwasanaethau deintyddol sylfaenol, a gwasanaethau offthalmig sylfaenol),
  - (b) gwasanaethau a ddarperir yn rhinwedd paragraff 15 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006, neu baragraff 11 o Atodlen 5 i'r Ddeddf honno (llety a gwasanaethau i gleifion preifat), ac
  - (c) gwasanaethau a ddarperir yn rhinwedd adran 198 o Ddeddf 2006 (defnyddio llety neu gyfleusterau'r gwasanaeth iechyd gwladol mewn practis preifat).
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio ystyr "gwasanaethau a eithrir".
- (8) Yn is-adrannau (5) a (6) mae cyfeiriadau at wasanaethau yn cynnwys llety, cyfleusterau, cyffuriau, meddyginiaethau, cyfarpar a nwyddau eraill, a ddefnyddir neu a gyflenwir yn gysylltiedig â gwasanaethau.

#### 4 Taliadau a eithrir

- (1) Yn y Ddeddf hon ystyr "taliad a eithrir" yw taliad a grybwyllir yn yr Atodlen.

- (2) Caiff rheoliadau ddiwygio'r Atodlen drwy hepgor neu addasu unrhyw daliad sydd am y tro wedi ei bennu ynddi.
- (3) Caiff rheoliadau addasu'r Atodlen drwy ychwanegu unrhyw daliad sydd o ddisgrifiad rhagnodedig, naill ai'n gyffredinol neu mewn amgylchiadau rhagnodedig.

*Tystysgrifau am ffioedd*

**5 Ceisiadau am dystysgrifau etc**

- (1) Cyn i berson wneud taliad digolledu i ddioddefwr o ganlyniad i glefyd sy'n ymwneud ag asbestos y mae'n dioddef ganddo, caiff y person hwnnw wneud cais i Weinidogion Cymru am dystysgrif.
- (2) Rhaid i berson sydd wedi gwneud taliad digolledu o ganlyniad i glefyd sy'n ymwneud ag asbestos y mae'r dioddefwr yn dioddef ganddo, o fewn y cyfnod rhagnodedig gan ddechrau ar y dyddiad y gwnaed y taliad digolledu, wneud cais i Weinidogion Cymru am dystysgrif—
  - (a) os nad oes, ar adeg gwneud y taliad, unrhyw dystysgrif wedi ei dyroddi i'r person mewn cysylltiad â'r dioddefwr, neu nad yw unrhyw dystysgrif, sydd wedi ei dyroddi i'r person mewn cysylltiad â'r dioddefwr, bellach mewn grym, a
  - (b) os nad oes unrhyw gais am dystysgrif mewn cysylltiad â'r dioddefwr wedi ei wneud gan y person yn ystod y cyfnod rhagnodedig sy'n dod i ben yn union cyn y diwrnod y gwnaed y taliad digolledu.
- (3) Os yw Gweinidogion Cymru'n cael cais o dan is-adran (1) neu (2) rhaid iddynt drefnu i dystysgrif gael ei dyroddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- (4) Caiff tystysgrif ddarparu ei bod i aros mewn grym—
  - (a) hyd at ddyddiad penodedig,
  - (b) hyd nes y bydd achlysur penodedig yn digwydd, neu
  - (c) am gyfnod amhendant.
- (5) Caiff person wneud cais o dan is-adran (1) am dystysgrif newydd o bryd i'w gilydd.
- (6) Nid yw is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn trefnu bod tystysgrif newydd yn cael ei dyroddi i berson sy'n gwneud cais o dan is-adran (5) os, pan fo'r cais yn dod i law, bydd tystysgrif sydd wedi ei dyroddi i'r ymgeisydd mewn cysylltiad â'r dioddefwr yn dal mewn grym; ond caiff Gweinidogion Cymru drefnu bod tystysgrif newydd yn cael ei dyroddi er mwyn iddi fod yn effeithiol pan ddaw'r dystysgrif gyfredol i ben.
- (7) Os bydd tystysgrif yn dod i ben, caiff Gweinidogion Cymru drefnu bod tystysgrif newydd yn cael ei dyroddi heb fod cais yn gorfod cael ei wneud i'w chael.
- (8) Rhaid i gais am dystysgrif gael ei wneud yn y modd rhagnodedig.

**6 Yr wybodaeth a geir mewn tystysgrifau**

- (1) Rhaid i dystysgrif bennu'r swm neu'r symiau y mae'r person y dyroddir y dystysgrif iddo yn atebol i'w dalu neu i'w talu o dan adran 2.
- (2) Rhaid i'r swm sydd i'w bennu, neu'r symiau sydd i'w pennu, fod fel a nodir mewn, neu a ddyfernir yn unol â, rheoliadau.

- (3) Os yw tystysgrif yn ymwneud â hawliad a wnaed gan ddiodefwyr neu ar ei ran –
- (a) y mae llys (mewn unrhyw wlad neu diriogaeth) wedi gorchymyn mewn cysylltiad â hi fod yr iawndal i gael ei leihau i adlewyrchu'r ffaith bod gan y diodefwyr ran o'r cyfrifoldeb dros y clefyd sy'n ymwneud ag asbestos, neu
  - (b) sydd wedi ei setlo neu wedi ei gytuno ar sail sy'n pennu bod yr iawndal yn cael ei leihau i adlewyrchu'r cyfryw ran o'r cyfrifoldeb hwnnw,
- rhaid i'r swm neu'r symiau a bennir yn y dystysgrif, ac eithrio o dan unrhyw amgylchiadau a ragnodir, fod yn swm neu'n symiau a fyddai'n cael ei bennu neu eu pennu felly, oni bai am yr is-adran hon, ac wedi ei leihau neu eu lleihau yn ôl yr un gyfran â'r lleihad yn yr iawndal.
- (4) Os yw tystysgrif yn ymwneud â diodefwyr nad oes unrhyw wasanaethau perthnasol GIG Cymru yn cael eu darparu iddo o ganlyniad i'r clefyd sy'n ymwneud ag asbestos y mae'r diodefwyr yn dioddef ganddo, rhaid i'r dystysgrif ddangos nad oes unrhyw swm yn daladwy o dan adran 2.
- (5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2), yn benodol, ddarparu –
- (a) na chaiff y swm, neu'r swm cyfanredol, a bennir mewn tystysgrif fod yn fwy na swm rhagnodedig;
  - (b) bod gwahanol symiau i'w pennu mewn cysylltiad â gwahanol amgylchiadau;
  - (c) ar gyfer achosion pan fo gwasanaethau perthnasol GIG Cymru yn cael eu darparu i ddiodefwyr mewn mwy nag un man;
  - (d) ar gyfer achosion pan fo atebolrwydd o dan adran 2 yn cael ei ddsrannu rhwng dau neu fwy o bersonau sy'n gwneud taliadau digolledu i'r un diodefwyr neu mewn cysylltiad â'r un diodefwyr am yr un clefyd sy'n ymwneud ag asbestos;
  - (e) ar gyfer achosion pan fo tystysgrif newydd yn cael ei dyroddi neu pan fo tystysgrif yn cael ei dirymu oherwydd adolygiad o dan adran 9 neu apêl o dan adran 10 neu 11;
  - (f) bod Gweinidogion Cymru yn dyfarnu ar unrhyw fater y mae angen ei ddyfarnu arno o dan y rheoliadau neu o'u herwydd.
- (6) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) sy'n darparu ar gyfer achosion a grybwyllir yn is-adran (5)(d) addasu'r Ddeddf hon a chânt (ymhlith pethau eraill) ddarparu yn achos bob digolledwr –
- (a) ar gyfer dyfarnu, neu ailddyfarnu'r swm y mae'r digolledwr yn atebol i'w dalu o dan adran 2,
  - (b) ar gyfer rhoi credyd am symiau a dalwyd eisoes, ac
  - (c) bod unrhyw berson yn talu unrhyw falans neu fod unrhyw dâl dros ben yn cael ei adennill oddi wrth unrhyw berson.
- (7) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) sy'n darparu ar gyfer achosion a grybwyllir yn is-adran (5)(e) (ymhlith pethau eraill) ddarparu yn achos unrhyw ddigolledwr –
- (a) ar gyfer rhoi credyd am symiau a dalwyd eisoes, a
  - (b) bod unrhyw berson yn talu unrhyw falans neu fod unrhyw dâl dros ben yn cael ei adennill oddi wrth unrhyw berson.

- (8) Mae gan berson y dyroddir tystysgrif iddo hawl i gael unrhyw fanylion a ragnodir am y modd y cafodd unrhyw swm a bennir yn y dystysgrif ei ddyfarnu os yw'r person yn gwneud cais i Weinidogion Cymru am y manylion hynny.
- (9) Caniateir i reoliadau o dan is-adran (2) gael eu gwneud yn y fath fodd ag i fod yn gymwys i unrhyw dystysgrif a ddyroddir ar ôl yr amser y mae'r rheoliadau'n dod i rym, ac eithrio un sy'n ymwneud â thaliad digolledu a wnaed cyn yr amser hwnnw.

*Talu ffioedd*

**7 Y cyfnod amser ar gyfer talu ffioedd**

- (1) Os caiff y dystysgrif y dyfernir drwy gyfeirio ati swm sy'n daladwy o dan adran 2, ei dyroddi cyn y dyddiad setlo, rhaid i'r swm hwnnw gael ei dalu cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y dyddiad setlo.
- (2) Os caiff y dystysgrif y dyfernir drwy gyfeirio ati swm sy'n daladwy o dan adran 2, ei dyroddi ar neu ar ôl y dyddiad setlo, rhaid i'r swm hwnnw gael ei dalu cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwrnod dyroddi'r dystysgrif.
- (3) Yn yr adran hon ystyr "y dyddiad setlo" yw'r dyddiad pryd y caiff y taliad digolledu ei wneud.
- (4) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 8(2).

**8 Adennill ffioedd**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw person wedi gwneud taliad digolledu a bod naill ai—
  - (a) is-adran (2) o adran 5 yn gymwys ond nad yw'r person wedi gwneud cais am dystysgrif fel sy'n ofynnol gan yr is-adran honno, neu
  - (b) bod y person heb dalu'n llawn unrhyw swm sy'n ddyledus o dan adran 2 erbyn diwedd y cyfnod a ganiateir o dan adran 7.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru—
  - (a) mewn achos o fewn is-adran (1)(a), ddyroddi tystysgrif i'r person a wnaeth y taliad digolledu, neu
  - (b) mewn achos o fewn is-adran (1)(b), ddyroddi i'r person a wnaeth y taliad digolledu gopi o'r dystysgrif neu (os oes mwy nag un wedi cael ei dyroddi) yr un fwyaf diweddar,ac yn y naill achos neu'r llall, cânt ddyroddi i'r person alwad am dalu unrhyw swm sy'n ddyledus o dan adran 2 ar unwaith.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru adennill y swm y mae galwad am dalu yn cael ei ddyroddi o dan is-adran (2) oddi wrth y person a wnaeth y taliad digolledu.
- (4) Os yw llys sirol yn gorchymyn felly, gellir adennill y swm y gelwir amdano o dan adran 85 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984 neu fel arall fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn gan y llys hwnnw.
- (5) Mae dogfen sy'n datgan ei bod yn gofnod o'r swm y mae modd ei adennill o dan is-adran (3) yn dystiolaeth ddigamsyniol bod modd adennill y swm felly os yw wedi ei llofnodi gan berson sydd wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan Weinidogion Cymru.

- (6) At ddibenion is-adran (5) mae dogfen sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi gan berson sydd wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan Weinidogion Cymru i'w thrin fel petai wedi ei llofnodi felly oni phrofir i'r gwrthwyneb.

*Adolygiadau ac apelau*

**9 Adolygu tystysgrifau**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu tystysgrif a ddyroddir ganddynt os yw'r dystysgrif yn ymwneud â hawliad a grybwyllir yn adran 6(3) a bod hysbysiad am y gorchymyn, y setliad neu'r cytundeb o dan sylw wedi ei roi i Weinidogion Cymru yn y modd a ragnodir.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu tystysgrif a ddyroddwyd ganddynt –
- (a) naill ai o fewn y cyfnod rhagnodedig neu mewn achosion rhagnodedig neu mewn amgylchiadau rhagnodedig, a
  - (b) naill ai ar gais a wnaed at y diben hwnnw neu o'u pen a'u pastwn eu hunain.
- (3) Ar ôl adolygiad o dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru –
- (a) cadarnhau'r dystysgrif,
  - (b) dyroddi tystysgrif newydd sy'n cynnwys unrhyw amrywiadau sy'n briodol yn eu barn hwy, neu
  - (c) dirymu'r dystysgrif.

**10 Apelau yn erbyn tystysgrifau a phenderfyniadau hawllidio**

- (1) Caiff apêl yn erbyn tystysgrif gael ei gwneud gan y person y dyroddwyd y dystysgrif iddo ar un neu fwy o'r seiliau canlynol –
- (a) bod swm a bennir yn y dystysgrif yn anghywir,
  - (b) bod swm a bennir felly yn cymryd i ystyriaeth rywbeth nad yw'n wasanaethau perthnasol GIG Cymru, neu
  - (c) nad yw'r taliad y dyroddwyd y dystysgrif ar ei sail yn daliad digolledu.
- (2) Ni chaniateir i unrhyw apêl gael ei gwneud hyd nes –
- (a) bod yr hawliad yn erbyn y person y dyroddwyd y dystysgrif iddo, sy'n arwain at y taliad digolledu, wedi ei benderfynu'n derfynol, a
  - (b) bod y swm (neu'r symiau) a bennir yn y dystysgrif wedi ei dalu (neu wedi eu talu) i Weinidogion Cymru (ond yn ddarostyngedig i is-adran (4) ac adran 11(5)).
- (3) At ddibenion is-adran (2)(a), os yw dyfarniad iawndal mewn cysylltiad â hawliad wedi ei wneud o dan, neu yn rhinwedd –
- (a) adran 32A(2)(a) o Ddeddf Uwchlysoedd 1981, neu
  - (b) adran 51(2)(a) o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984,
- (gorchmynion ar gyfer iawndaliadau dros dro mewn achosion o anafiadau corfforol), mae'r hawliad i'w drin fel petai wedi ei benderfynu'n derfynol.



- (4) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl cael cais y person y dyroddwyd y dystysgrif iddo, hawlildio'r gofyniad yn is-adran (2)(b) fod y swm (neu'r symiau) a bennir yn y dystysgrif yn cael ei dalu (neu eu talu) cyn gwneud apêl.
- (5) Dim ond os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru y byddai talu'r swm (neu'r symiau) a bennir yn y dystysgrif yn achosi caledi ariannol eithriadol y cânt ganiatáu hawlildiad.
- (6) Caiff apêl yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru ("penderfyniad hawlildio") ar gais o dan is-adran (4) gael ei wneud gan y person y dyroddwyd y dystysgrif iddo.
- (7) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth—
  - (a) ynghylch y modd y caniateir i gais o dan is-adran (4) gael ei wneud;
  - (b) ynghylch y modd y caniateir i apêl i Weinidogion Cymru yn erbyn tystysgrif neu benderfyniad hawlildio gael ei gwneud ac ynghylch y cyfnod y caniateir i apêl o'r fath gael ei gwneud ynddo;
  - (c) ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud apêl i Weinidogion Cymru yn erbyn tystysgrif neu benderfyniad hawlildio;
  - (d) er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i drin apêl iddynt yn erbyn tystysgrif fel cais am adolygiad o dan adran 9.

## 11 Apelau i dribiwnlys

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyfeirio at y Tribiwnlys Haen Gyntaf apêl yn erbyn—
  - (a) tystysgrif, neu
  - (b) penderfyniad hawlildio.
- (2) Wrth ddyfarnu ar apêl yn erbyn tystysgrif, rhaid i'r tribiwnlys ystyried unrhyw benderfyniad gan lys sy'n ymwneud â'r un mater, neu unrhyw fater tebyg, sy'n codi mewn cysylltiad â'r clefyd o dan sylw sy'n ymwneud ag asbestos.
- (3) Ar apêl yn erbyn tystysgrif, caiff tribiwnlys—
  - (a) cadarnhau'r swm neu'r symiau a bennir yn y dystysgrif,
  - (b) pennu unrhyw amrywiadau sydd i'w gwneud wrth ddyroddi tystysgrif newydd o dan is-adran (4), neu
  - (c) datgan bod y dystysgrif i'w dirymu.
- (4) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi derbyn penderfyniad tribiwnlys ar apêl yn erbyn tystysgrif, rhaid iddynt (yn unol â'r penderfyniad hwnnw)—
  - (a) cadarnhau'r dystysgrif,
  - (b) dyroddi tystysgrif newydd, neu
  - (c) dirymu'r dystysgrif.
- (5) Ar apêl yn erbyn penderfyniad hawlildio, caiff tribiwnlys—
  - (a) cadarnhau'r penderfyniad, neu
  - (b) hawlildio'r gofyniad o dan sylw.

*Amrywiol*

**12 Darparu gwybodaeth**

- (1) Os yw digollediad yn cael ei geisio o ganlyniad i glefyd sy'n ymwneud ag asbestos y mae dioddefwr yn dioddef ganddo, rhaid i unrhyw wybodaeth a ragnodir ynglŷn ag amgylchiadau'r achos gael ei rhoi i Weinidogion Cymru gan y personau canlynol –
  - (a) y person y gwneir yr hawliad yn ei erbyn ac unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw, p'un a oes achos cyfreithiol wedi ei gychwyn ai peidio;
  - (b) unrhyw berson arall, neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran unrhyw berson arall, sy'n atebol, neu yr honnir ei fod yn atebol, i unrhyw raddau mewn cysylltiad â'r clefyd;
  - (c) y dioddefwr, neu os yw'r dioddefwr wedi marw, cynrychiolwyr personol y dioddefwr neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y dioddefwr neu ar ran cynrychiolwyr personol y dioddefwr;
  - (d) os nad yw'r hawliad yn cael ei wneud gan y dioddefwr, y person sy'n gwneud yr hawliad neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran;
  - (e) y personau sy'n gyfrifol am unrhyw sefydliad neu gorff y mae gwasanaethau perthnasol GIG Cymru'n cael eu darparu ganddynt i'r dioddefwr mewn cysylltiad â'r clefyd sy'n ymwneud ag asbestos.
- (2) Rhaid i berson y mae'n ofynnol iddo roi gwybodaeth o dan yr adran hon wneud hynny –
  - (a) yn y modd rhagnodedig, a
  - (b) o fewn y cyfnod rhagnodedig.
- (3) Caniateir i reoliadau o dan yr adran hon, yn benodol, ei gwneud hi'n ofynnol i wybodaeth gael ei darparu am unrhyw wasanaethau perthnasol GIG Cymru a ddarparwyd i ddioddefwr mewn cysylltiad â chlefyd sy'n ymwneud ag asbestos.

**13 Rheoliadau sy'n llywodraethu cyfandaliadau, taliadau cyfnodol etc**

- (1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth (gan gynnwys darpariaeth sy'n addasu gweithrediad y Ddeddf hon) –
  - (a) ar gyfer achosion y mae adran 2 yn gymwys iddynt lle y mae dau neu fwy o daliadau digolledu ar ffurf cyfandaliadau yn cael eu gwneud gan yr un person mewn cysylltiad â chlefyd sy'n ymwneud ag asbestos;
  - (b) ar gyfer achosion y mae adran 2 yn gymwys iddynt lle'r ymrwymir i gytundeb er mwyn gwneud –
    - (i) taliadau digolledu cyfnodol (p'un ai o natur incwm neu o natur cyfalaf), neu
    - (ii) taliadau digolledu cyfnodol a chyfandaliadau digolledu;
  - (c) ar gyfer achosion lle y mae'r taliad digolledu y mae adran 2 yn gymwys iddo yn daliad interim o iawndal y mae llys yn gorchymyn ei fod i gael ei ad-dalu.
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(a), yn benodol, ddarparu –
  - (a) ar gyfer rhoi credyd am symiau sydd eisoes wedi cael eu talu, a

- (b) bod unrhyw berson yn talu unrhyw falans neu fod unrhyw dâl dros ben yn cael ei adennill oddi wrth unrhyw berson.
- (3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy'n addasu'r modd y mae'r Ddeddf hon yn gymwys mewn perthynas ag achosion lle y mae taliad i mewn i lys ac, yn benodol, caiff ddarparu –
  - (a) bod gwneud taliad i mewn i lys i'w drin mewn amgylchiadau rhagnodedig fel gwneud taliad digolledu, a
  - (b) ar gyfer gwneud cais am dystysgrifau a'u dyroddi.

#### **14 Atebolrwydd yswirwyr**

- (1) Pan fo atebolrwydd neu atebolrwydd honedig y person y mae taliad digolledu'n cael ei wneud ganddo neu ar ei ran yn, (neu os y'i canfyddir) y byddai'n, cael ei gwmpasu i unrhyw raddau gan bolisi yswiriant, mae'r polisi i'w drin fel pe bai'n cwmpasu atebolrwydd y person o dan adran 2.
- (2) Ni chaniateir i atebolrwydd a osodir ar yr yswiriwr gan is-adran (1) gael ei eithrio na'i gyfyngu.
- (3) At y diben hwnnw, mae eithrio neu gyfyngu atebolrwydd yn cynnwys –
  - (a) peri i'r atebolrwydd neu ei orfodi fod yn ddarostyngedig i amodau cyfyngol neu feichus,
  - (b) eithrio neu gyfyngu unrhyw hawl neu rwymedi o ran yr atebolrwydd, neu beri i'r person ddioddef unrhyw afles am ei fod yn mynd ar drywydd unrhyw hawl neu rwymedi o'r fath, neu
  - (c) eithrio neu gyfyngu rheolau tystiolaeth neu reolau'r drefn.
- (4) Caiff rheoliadau, mewn achosion rhagnodedig, gyfyngu ar faint unrhyw atebolrwydd a osodir ar yswiriwr gan is-adran (1).
- (5) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â pholisïau yswiriant a ddyroddir cyn (yn ogystal â'r rheini a ddyroddir ar ôl) y dyddiad y daw'r adran hon i rym.
- (6) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at bolisïau yswiriant a'u dyroddi yn cynnwys cyfeiriadau at gontractau yswiriant a'u llunio.

#### **15 Defnyddio symiau a ad-delir**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy arfer eu swyddogaethau o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, roi sylw i ddymunoldeb sicrhau bod swm sy'n cyfateb i'r hyn a ad-delir yn rhinwedd adran 2 yn cael ei ddefnyddio, yn unol â'r Ddeddf honno, at ddibenion trin clefydau sy'n ymwneud ag asbestos, gwneud ymchwil i glefydau o'r fath neu ddarparu gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â chlefydau o'r fath.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru adrodd yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y defnydd o symiau sy'n cyfateb i'r hyn a ad-delir yn rhinwedd adran 2.

*Amrywiol a chyffredinol*

#### **16 Cymhwyso i'r Goron**

Mae'r Ddeddf hon yn rhwymo'r Goron.

**17 Gorchmynion a rheoliadau**

- (1) Mae unrhyw bŵer i wneud gorchmynion neu reoliadau o dan y Ddeddf hon i'w arfer gan Weinidogion Cymru.
- (2) Caiff unrhyw orchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon –
  - (a) gwneud gwahanol ddarpariaethau at wahanol ddibenion, a
  - (b) gwneud darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth drosiannol.
- (3) Caiff unrhyw bŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon (yn ogystal â bod yn arferadwy mewn perthynas â phob achos y mae'n ei rychwantu) gael ei arfer mewn perthynas â'r holl achosion hynny sy'n ddarostyngedig i eithriadau neu mewn perthynas ag unrhyw achos penodol neu ddsbarth ar achos.
- (4) Mae unrhyw bŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.
- (5) Ni chaniateir i'r rheoliadau canlynol –
  - (a) rheoliadau o dan adran 3(7),
  - (b) rheoliadau o dan adran 4(2),
  - (c) y rheoliadau cyntaf o dan adran 6(2), a
  - (d) y rheoliadau cyntaf o dan adran 10(7),

gael eu gwneud oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n eu cynnwys wedi cael ei osod gerbron, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- (6) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw reoliadau eraill o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**18 Dehongli**

Yn y Ddeddf hon –

mae i'r ymadrodd "clefyd sy'n ymwneud ag asbestos" ("*asbestos-related disease*") yr ystyr a roddir gan adran 3(3);

ystyr "Deddf 2006" ("*2006 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

mae i'r ymadrodd "dioddefwr" ("*victim*") yr ystyr a roddir gan adran 2;

mae i'r ymadrodd "ffioedd priodol" ("*appropriate charges*") yr ystyr a roddir gan adran 3(4);

mae i'r ymadrodd "gwasanaethau perthnasol GIG Cymru" ("*relevant Welsh NHS services*") yr ystyr a roddir gan adran 3(5) i (8);

mae i'r ymadrodd "penderfyniad hawlildio" ("*waiver decision*") yr ystyr a roddir gan adran 10(6);

ystyr "rhagnodedig" ac "a ragnodir" ("*prescribed*") yw wedi ei ragnodi gan reoliadau;

mae i'r ymadrodd "taliad a eithrir" (*"excluded payment"*) yr ystyr a roddir gan adran 4 (a'r Atodlen);

mae i'r ymadrodd "taliad digolledu" (*"compensation payment"*) yr ystyr a roddir gan adran 3(1) a (2);

ystyr "tystysgrif" (*"certificate"*) yw tystysgrif o dan y Ddeddf hon.

## **19 Cychwyn**

- (1) Daw adran 1, yr adran hon, adran 20 a'r pwerau a roddir gan y Ddeddf hon i wneud rheoliadau i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.
- (2) Yn ddarostyngedig i is-adran (1), daw'r Ddeddf hon i rym yn unol â darpariaeth a wnaed drwy orchymyn.

## **20 Enw byr**

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau sy'n ymwneud ag Asbestos (Cymru) 2013.

## ATODLEN

(A gyflwynwyd gan adran 4)

### TALIADAU A EITHRIR

- 1 Unrhyw daliad a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Niwmoconiosis etc (Digolledu Gweithwyr) 1979 neu Ran 4 o Ddeddf Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2008.
- 2 Unrhyw daliad a wneir i'r dioddefwr neu ar ei gyfer o dan adran 130 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 (gorchmynion digolledu yn erbyn personau sydd wedi eu collfarnu).
- 3 Unrhyw daliad a wneir, wrth arfer disgrisiwn, allan o eiddo a ddelir yn ddarostyngedig i ymddiriedaeth mewn achos lle na chafodd mwy na 50 y cant yn ôl ei werth o'r cyfalaf a gyfrannwyd at yr ymddiriedaeth ei ddarparu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan bersonau sydd, neu yr honnir eu bod, yn atebol mewn cysylltiad—
  - (a) â'r clefyd sy'n ymwneud ag asbestos y mae'r dioddefwr yn dioddef ganddo, neu
  - (b) ag unrhyw glefyd cysylltiedig y mae rhywun arall yn dioddef ganddo.
- 4 Unrhyw daliad a wnaed o eiddo a ddelir at ddibenion ymddiriedaeth ragnodedig.
- 5 (1) Unrhyw daliad a wnaed i'r dioddefwr gan yswiriwr o dan delerau unrhyw gontract yswiriant yr ymrwymwyd iddo gan y dioddefwr a'r yswiriwr.
  - (2) Yn is-baragraff (1) ystyr "yswiriwr" ("insurer") yw—
    - (a) person sydd â chaniatâd o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 i weithredu neu i gyflawni contractau yswiriant, neu
    - (b) cwmni Ardal Economaidd Ewropeaidd o'r math a grybwyllir ym mharagraff 5(d) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno sydd â chaniatâd o dan baragraff 15 o'r Atodlen honno (o ganlyniad i gymhwyso i gael awdurdodiad o dan baragraff 12 o'r Atodlen honno) i weithredu neu i gyflawni contractau yswiriant.
- (3) Dylid darllen is-baragraff (2) yn unol â'r canlynol—
  - (a) adran 22 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000,
  - (b) unrhyw orchymyn perthnasol o dan yr adran honno, ac
  - (c) Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.
- 6 Unrhyw daliad i'r graddau y caiff ei wneud—
  - (a) o ganlyniad i Ddeddf Damweiniau Marwol 1976, neu
  - (b) mewn amgylchiadau lle y byddai, pe bai achos cyfreithiol wedi ei ddwyn, wedi ei ddwyn o dan y Ddeddf honno.